

Caru cymydog

“Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o’r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw’r Tad a’r Mab a’r Ysbryd Glân...” (adn. 19)

Beth am ddarlflen Mathew 28:16–20 ac yna myfyrio

Mae llawer sydd yn beirniadu Cristnogaeth am ddweud wrthym fod gwneud honiadau am unigrywiaeth ein ffydd yn un o’r ffyrdd mwyaf anffodus o ddilyn gorchymyn Iesu Grist i garu ein cymydog fel ein hunain. Ond os yw’r efengyl yn wir, yna’r ffordd orau i garu ein cymydog yw i ddweud wrthyn nhw am unigrywiaeth Iesu Grist. Mae gadael y bobl yma mewn anwybodaeth amdano yn gam yn ein cariad tuag atynt.

Fe ddywed gweinidog am ei wraig yn siarad un diwrnod hefo rhywun mewn siop gan nodi bod ei merch yn genhades. Fe ddywedodd y person wrthi, “Nid wyf yn credu mewn cenhadon... does gennym ni ddim hawl mynd i wledydd eraill gan ymyrryd â’u diwylliant a’u crefydd.” Wrth gwrs, mae hyn yn farn miloedd o bobl. Ond, fel y dywed y darlleniad heddiw, cyn i Iesu Grist adael y ddaear, fe orchmynnodd ei ddisgyblion i fynd i’r holl fyd i bregethu’r efengyl. Meddyliwch petai gwlad yn darganfod modd i iachau pobl o ganer ac yna cadw’r darganfyddiad yn gyfrinach. Mi fyddai hyn yn bechod yn erbyn dynoliaeth. Yn yr un modd, mae’r rhai hynny ohonom sydd â gwybodaeth am efengyl Iesu Grist ac yn ei gadw i ni’n hunain yn pechu yn erbyn dynoliaeth.

Mae gorchymyn ein Harglwydd i fynd i’r holl fyd a phregethu’r efengyl yn cael ei gadarnhau gan angen mawr bobl dros y byd i gyd. Yn ôl un sydd yn teithio ac wedi astudio gwahanol grefyddau yn y gwledydd yr ymwelodd â hwy, ei dystiolaeth oedd mai’r hyn y mae pobl yn llefain amdano ymhob rhan o’r byd yw cael eu rhyddhau o’r ymwybyddiaeth o euogrwydd a chael profi maddeuant dwyfol. Does ond Iesu sy’n medru cynnig hynny. Mae ei groes ef yn agor breichiau’r nefoedd yn agored i bawb drwy’r byd i gyd ac oherwydd Crist, a Christ yn unig, fe all siarad y gair hynny sydd yn rhyddhau pobl o’u pechodau ac yn hynny yn medru meddiannu’r byd i gyd yn ei enw Ef.

Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

2 Bren. 7:3–9; Math. 5:13–16

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut y bu i’r gwahangleifion ddelio â’r newyddion da?
2. Sut allwn garu ein cymydog?

Gweddi

O Iesu, rwyf mor ddiolchgar wrth i mi ufuddhau i’th orchymyn i fynd â phregethu’r efengyl i rywun dy fod ti dy hunan yn addo bendithio hyn. Diolch dy fod ti yn dod ataf i er mwyn i mi ddod atat ti ac i fynd at eraill. Diolch Arglwydd. Amen.